

Cyngor Cymuned Pentir

Cynhelir cyfarfod Cyngor Llawn Nos Iau 14eg o Orffennaf 2022

Agenda

1. Presennol:
2. Ymddiheuriadau:
3. Datgan buddiant
4. Derbyn Cofnodion 9fed o Fehefin
5. Materion yn codi
6. Materion ariannol
 - i. Mantolen ariannol
 - ii. Archwyllo Allannol
 - iii. Cofnodion cyfarfod IBC 29/06/2022 (wedi eu atodi ond heb eu cadarnhau)
7. Cynllunio
Dim cais wedi gyflwyno yn yr ardal ers ein cyfarfod dwaetha
8. Materion y Clerc
 - Llawlyfr Manylion Cyswllt (wedi ei atodi ond oes angen copi caled
gadewch i mi wybod)
 - Septic Tanc Diweddariad a talu
9. Materion y Cynghorwyr

Cyngor Cymuned Pentir

Cofnodion cyfarfod Cyngor Llawn Nos Iau 09fed o Fehefin 2022

1. **Presennol:** Cyng L A James; Cyng M Baines Cyng J Pierce Cyng B Jones Cyng D Jones-Morris; Cyng E Jones, Cyng J Lewis; a'r Cyng A Joyce
Clerc E Jones _Mr I Ellis a Ms C W Owen
2. **Ymddiheuriadau** Cyng M Lynch – Cadeirydd. Cyng Dafydd Meurig
3. **Croeso**
Ar ol i'r Cynghorwyr arwyddo eu ffurflenni derbyn swydd ac ymrwymo i'r Cód Ymddygiad croesawodd y Clerc pawb i'r cyfarfod wyneb yn wyneb cyntaf ers dros 2 flynedd.
Gofynnodd am ganiatad y Cyngor, yn absenoldeb y Cadeirydd, i symud ychydig ar yr Agenda fel ei bod yn bosib ethol Cadeirydd i'r cyfarfod.
Esboniodd i'r Cyngor yn y cyfarfod Blynyddol yn Mis Mai gytuno i ohirio ethol Is-Gadeirydd ag aelodau Is Bwyllgorau oherwydd y nifer isel oedd yn bresennol oherwydd ymddiheuriadau a'r nifer o seddi gwag.
Cynnigwyd ag eilwyd i'r Cyng E Jones i fod yn Is-Gadeirydd Cyngor Cymuned Pentir Cymerodd drosodd i gadeiryddio y cyfarfod heno
4. **Cyfethol** Yn dilyn etholiadau Mis Mai mi oedd yna 3 sedd wag i'w llenwi
Cynnigiodd Cyng D Jones Morris fod y Cyngor yn cyfethol Mr Dewi W Jones, Ms Carol W Owen a Mr Ieuan Ellis. Cafodd y cynnig ei eilio gan y Cyng B Jones. Derbynwyd y tri yn unfrydol.
Arwyddodd Cyng I Ellis a Cyng C W Owen eu ffurflenni derbyn swydd ag ymrwymo i'r Cod Ymddygiad
Clerc i gyssylltu a'r Cyng Dewi W Jones
5. **Datgan buddiant**
Ni ddatgelwyd buddiant gan neb
6. **Derbyn cofnodion 11 eg o Fai 2022**
Cyng J. Pierce yn cynnig a Cyng B. Jones yn eilio
7. **Materion yn codi o'r cofnodion**
Dam na fyddai yn cael ei drafod o fewn yr agenda
8. **Materion ariannol**
 - a. **Mantolen ariannol**
Rhanwyd fantolen ariannol oedd yn dangos £50,806.81 yn y Cyfrif Cyfredol yn dilyn derbyn haner cyntaf y Praesept ag ad-daliad TAW; a £35,041.97 yn y cyfrif Cadw
 - b. **Archwyllo mewnnol**
'Roedd yr archwilwyr mewnnol wedi cwblhau eu archwylid a rhanwyd eu adroddiad hefo'r aelodau. Angen nodi ei bod yn hanfodol ein bod yn archwyllo ag addasu, tae angen, ein polisiau cyn eu derbyn a'i mabwysiadu yn flynyddol
 - c. **Cofnodion cyfarfod IBC 25/05/2022**
Adroddodd y Clerc ar lafar trafodaethau yr Is-bwyllgor Cyllid
Ynghyd a taliadau a derbyniadau datganwyd nad oedd archwyllo cerrig beddi wedi

digwydd gan fod y Clerc yn awyddus i drefnu cael llun o'r awyr i gymharu a'r Cynlluniau oedd wedi eu gwneud cyn sefydlu plot ar gyfer gweddillion amloggi Byddai hynny yn ei gwneud yn haws i'r Cwmni archwyllo adnabod unrhyw fedd fyddai a charreg ansefydlog arno

Mynegwyd pryder ynglyn a'r gwasanaeth oedd y Cyngor yn ei dderbyn gan ein Cwmni Cyfreithwyr

Cytunwyd i'r Clerc geisio unwaith eto i drefnu cyfarfod i drafod Prydles y Ganolfan Newydd a Canolfan Glasinfryn

Trafodwyd fod ein Cwmni Yswiriant yn cynnig cadw at yr un cytundeb/pris os oedd yn asedau'r cyngor yn parhau fel y maent

Argymhell i'r Cyngor Llawn ein bod yn cymeryd yr opsiwn 3 blynedd i fyny

9. Cynllunio

C21/1042/25/LL Bryn Tirion, Parc Y Faenol, Y Felinheli, Gwynedd, LL56 4JX

Cais ar gyfer trosi adeilad allanol i uned wyliau hunan gynhaliol **Dim Gwrthwynebiad**

C22/0452/25/DT Plas Tirion, Pentir, Bangor, Gwynedd, LL57 4UY

Dymchwel estyniad cegin presennol ynghyd â codi estyniad cegin newydd i gynnwys

balconi drosodd **Dim Gwrthwynebiad**

C22/0425/25/RA Glan Menai, Treborth, , Bangor, LL57 2NQ

Rhyddhau amod 3 (Cytuno deunyddiau) o ganiatâd cynllunio C19/0788/25/LL ar gyfer

codi pedwar byngalo deulofft **Dim Gwrthwynebiad**

10. Materion y Clerc

a. **Yswiriant** Cymeryd yr opsiwn i gadw am 3 blynedd **Derbyn Argymhelliad yr IBC**

b. **Septic Tanc** Diweddariad **Dyddiad cychwyn rhwng 6ed a'r 17eg o Fehefin**

c. **Aelodaeth i'r IBC** Cytunwyd i barhau gyda'r 5 oedd yn arfer bod yn aelodau Cyng L A James yn Gadeirydd, Cyng J Pierce, Cyng D Jones-Morris, Cyng B. Jones, Cyng D W Jones

Ychwanegu Cyng J Lewis a Cyng I Ellis fel bod Cyfanswm o 7

11. Materion y Cynghorwyr

Cyng M Baines Datgan fod pryder wedi ei adrodd i'r Cyng Dafydd Meurig wrth ymgyrchu cyn yr etholiad am y broblem sy'n parhau yn mynwent Eglwys St Cedol hefo'r chwynyn Japanese Knotweed

Clerc esioes wedi anfon i'r gadeirlan ond dim ymateb ond ar ddeallt erbyn hyn bod yna Reithor yn gyfrifol am yr Eglwys

Clerc felly i gysylltu a'r Rheithor

Daeth y cyfarfod i ben am 9.00